

Gwasanaeth Profi Orlhain Diogelu Gwent

Eich Helpu i Gadw'n Ddiogel



Rydym yn sylweddoli y gall aros gartref am hyd at 10 diwrnod fod yn her, ond trwy wneud hyn rydych yn helpu i reoli'r pandemig COVID-19 a Chadw Cymru'n Ddiogel.

Diolch am gadw Casnewydd yn ddiogel.



Bydd angen i chi fod heb dwymyn heb gorfod defnyddio meddyginiaeth am 48 awr cyn y gallwch roi'r gorau i hunanynysu. Cofiwch, os oes angen cymorth arnoch gyda'ch lechyd meddwl, neu gefnogaeth ymarferol neu ariannol yn ystod y cyfnod hwn – mae cefnogaeth ar gael.

Sut mae pethau'n mynd?

Mae llawer ohonom yn cael teimladau newydd ac anodd oherwydd pandemig y coronafirws.

Mae'n bwysig gwneud popeth o fewn eich gallu i gynnal eich iechyd meddyliol a'ch iechyd corfforol.

Os ydych chi'n teimlo eich bod angen help i reoli eich teimladau, gallwch gofrestru gyda gwasanaeth hunan-gymorth tywysedig, yn rhad ac am ddim yma: <https://www.mind.org.uk/about-us/mind-cymru/active-monitoring/>

Neu cysylltwch â Mind Casnewydd ar - **01633 258741** neu e-bostio info@newport-mind.org.uk

Cofiwch y gall eich



Meddyg Teulu eich helpu hefyd os ydych yn poeni am eich iechyd meddwl.

Rydym yn argymhell eich bod yn cadw cysylltiad â'r rheiny sy'n annwyl i chi a gwneud ymarfer corff a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynnal eich iechyd corfforol.



NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

Gofalu amdanoch eich hun

Mae gwybodaeth ddefnyddiol a all eich helpu i gynnal eich iechyd meddwl ar dudalennau gwe 'Ffordd i Les' Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

At hyn, mae canllaw penodol ar Coronafrws a gofalu am eich Lles ar gael yma:

www.phw.nhs.wales/howareyoudoing

Mae nifer o weithgareddau y

mae modd i chi wneud gartref, megis cerdded i fyny ac i lawr y staer, dawnsio, garddio neu gymryd rhan mewn dosbarthiadau ffitrwydd rhithwir.

Os ydych yn teimlo eich bod yn eistedd mwy a mwy, ceisiwch sefyll a cherdded o gwmpas y tŷ bob 30 munud.

Mae Chwaraeon Cymru wedi lansio #workoutWales ac mae ganddynt fideos ymarfer corff ysgafn gwyh ar gael ar-lein.

Mae'n bwysig gwneud popeth o fewn eich gallu i leihau lledaeniad yr haint yn eich cartref:

- Golchwch eich dwylo gyda sebon a dŵr yn aml, am o leiaf 20 eiliad

- Defnyddiwch hy-lif diheintio dwylo os nad oes sebon a dŵr ar gael

- Rhewch hances bapur neu eich llawes (nid eich dwylo) dros eich trwyn a'ch ceg pan fyddwch yn

tagu neu'n tisian

- Golchwch wrth-rychau ac arwynebau yr ydych yn eu cyffwrdd yn aml (megis handlenni drws, tegelli a ffonau) gan ddefnyddio offer glanhau.

- Rhewch hancesi papur yn y bin yn syth ar ôl eu defnyddio a golchwch eich dwylo'n syth

- Gwisgwch orchudd wyneb a chadwch bellter cymdeithasol pan fyddwch mewn

mannau o'ch cartref yr ydych yn eu rhannu ag eraill

Peidiwch â gadael y tŷ.

- Cadwch ffenestri ar agor yn yr ystafell yr ydych yn aros ynddi ac mewn mannau yr ydych yn eu rhannu ag eraill

PEIDIWCH â rhannu tyweli, tyweli dwylo na chadachau llestri





Os oes rhywun yn eich cartref yn datblygu symptomau Coronafirws, mae'n bwysig eu bod yn trefnu prawf yr un diwrnod ag y mae eu symptomau'n cychwyn.

Gwnewch gais am brawf ar www.gov.wales/applycoronavirus-test neu ffoniwch **119** am ddim rhwng 7am a 11pm.

Os yw'ch symptomau'n gwaethygu, gofynnwch am gyngor meddygol drwy ffonio eich Meddyg Teulu neu gysylltu â GIG 111. Peidiwch â mynd i feddygfa nag ysbyty heb drefniant o flaen llaw gyda'ch clinigwr.

Tarfu cyn lleied â phosibl ar addysg

Rhowch wybod i ysgol eich plentyn os oes angen i chi hunanynysu.

Gofynnwch am fanylion unrhyw/holl waith perthnasol ar gyfer eich plentyn.

Cefnogwch eich plentyn yn barhaus i orffen ei waith yn ystod y cyfnod hwn.

Os dywedwyd wrthyh i hunanynysu gan y Gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu, efallai y bydd gennych hawl i gael cymorth ariannol o hyd at £500.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i <http://www.newport.gov.uk/en/Council-Tax-Benefits/COVID-19-self-isolation-support-scheme.aspx> neu ffoniwch 01633 656 656

Cefnogaeth Ymarferol

Gall Canolfan Gyswilt Cyngor Dinas Casnewydd ddarparu gwybodaeth yn ogystal â'ch cyfeirio at gymorth ariannol megis banciau bwyd a chroffeydd caledi a chymorth ymarferol ar bethau megis bwyd a meddyginiaeth. Cysylltwch â hwy ar **01633 656656** neu www.newport.mycouncilservices.com

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth, cyngor a chefnogaeth drwy **Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO)** - www.gavo.org.uk/covid19

Manteision

Tâl Salwch Statudol

Os ydych chi'n gyflogedig ac yn wael neu'n hunanynysu, mae'n bosib eich bod yn gymwys i hawlio Tâl Salwch Statudol (SSP), a fydd yn eich helpu gyda chostau byw neu gyda thalu eich rhent a'ch biliau.

Os ydych chi'n gyflogedig ond nad ydych yn ennill digon o gyflog i hawlio SSP, mae'n bosib y gallwch hawlio Credyd Cynhwysol er mwyn eich helpu gyda chostau byw a thalu eich rhent a'ch biliau.

Mae'n bosib eich bod yn gymwys ar gyfer Tâl Salwch Statudol os oes gofyn i chi hunanynysu oherwydd eich bod wedi cael gwybod eich bod wedi dod i gysylltiad â rhywun sydd â coronafirws, ac o ganlyniad, nid oes modd i chi weithio. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â Thal Salwch Statudol cliciwch yma: www.gov.uk/statutory-sick-pay/eligibility

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Newydd (ESA)

Os ydych yn wael neu'n hunanynysu, mae'n bosib y bydd modd i chi dderbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Newydd, unai ar ben ei hun neu ar yr un pryd â Chredyd Cynhwysol. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ar yr ESA newydd ar:

www.gov.uk/guidance/new-styleemployment-and-support-allowance

Gwybodaeth ar yr ESA newydd:

0800 328 5644 (opsiwn 3)

0800 328 1344 (opsiwn 3)

Llinell ffôn Gymraeg:

0800 328 1744

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ar gymorth ariannol ar:

www.gov.wales/financial-support-for-individuals

Am mynediad leol i gael mynediad at amrywiaeth o grantiau, gan gynnwys grantiau ar gyfer pethau hanfodol a biliau brys, cysylltwch

01495 311556

Cyngor Lleol ar Fudd-daliadau

Os ydych yn hunanynysu ac yn chwilio am gyngor ar eich hawl i fudd-daliadau a hawl-iadau, cymorth gyda dyledion a hawliau cyflogaeth, cysylltwch â:

Newport Citizens Advice

Am gyngor cyffredinol ffo-niwch 03444 77 20 neu ewch i'w gwefan sef

www.newportca.org.uk/

Disability Advice Project (DAP)

01633 485865

info@dapwales.org.uk

www.dapwales.org.uk

Talu am gostau eich cartref

P'unai eich bod yn denant sector cymdeithasol y sector preifat neu'n berchen ar eich cartref, mae'n bwysig eich bod yn gofyn am gyngor a chefnogaeth cyn gynted â phosibl os ydych yn meddwl y byddwch yn cael trafferth talu eich rhent a'ch biliau.

Gallwch gysylltu â'ch landlord neu ddarparwr morgais i ofyn am newid tymor byr i'ch trefniadau talu, neu gallwch gysylltu â Porth Casnewydd ar **01633 235201** neu e-bostio newport.gateway@newport.gov.uk os oes angen cymorth mwy hirdymor arnoch.

Bydd y Porth yn gofyn ambell i gwestiwn i chi ynglŷn â'ch amgylchiadau a byddant yn eich cyfeirio at y cyngor, y wybodaeth a'r gefnogaeth sydd fwyaf addas ar eich cyfer.

Os yw'ch biliau neu'ch taliadau morgais yn mynd yn drech na chi, hyd yn oed yn y tymor byr, mae cymorth ar gael gan y **Tîm Datrysia-dau Tai. Cysylltwch â 01633 656656** am asesiad, cyngor a gwybodaeth.

Mae Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai (DHPs) yn rhoi cymorth ychwanegol i chi o ran eich rhent I gael DHP, mae'n rhaid i chi fod yn gymwys am Fudd-daliad tai neu'n derbyn Credyd Cynhwysol sy'n cynnwys swm ar gyfer costau tai, ond er eich bod yn derbyn y rhain ac mae'n rhaid i chi fod yn methu â thalu eich costau tai o hyd.

Am fwy o wybodaeth ac i wneud cais ewch i www.newport.gov.uk/en/Council-Tax-Benefits

Llyfryn Cym1 19.12.2020
Am fwy o wybodaeth am
Coronafirws ewch i:
www.gov.wales/coronavirus

